Department for Environment Food & Rural Affairs

# Ymgynghoriad ar ddal a thrin dofednod

10 Mawrth 2025

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Scottish Government
Riaghaltas na h-Alba

Ni yw Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig. Rydym yn gyfrifol am wella a diogelu'r amgylchedd, tyfu'r economi werdd, cynnal cymunedau gwledig ffyniannus a chefnogi ein diwydiannau bwyd, ffermio a physgota o'r radd flaenaf.

Rydym yn gweithio'n agos gyda'n 33 o asiantaethau a chyrff hyd braich ar ein huchelgais i wneud ein haer yn burach, ein dŵr yn lanach, ein tir yn wyrddach a'n bwyd yn fwy cynaliadwy. Ein cenhadaeth yw adfer a gwella'r amgylchedd ar gyfer y genhedlaeth nesaf, a gadael yr amgylchedd mewn cyflwr gwell nag yr oedd.

OGL

© Hawlfraint y Goron 2024

Mae'r wybodaeth hon wedi ei thrwyddedu o dan Drwydded Llywodraeth Agored f3.0. I weld y drwydded hon, ewch i www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/

Pan fyddwn wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/defra

Dylid anfon unrhyw ymholiad ynghylch y cyhoeddiad hwn atom yn poultry.catching@defra.gov.uk

# Cynnwys


Trosolwg ....................................................................................................4

Cwmpas ....................................................................................................4

Cynulleidfa ....................................................................................................4

Ymateb i'r ymgynghoriad ....................................................................................................5

Cyflwyniad ....................................................................................................5

Cefndir o ddal ieir masnachol mewn perthynas â gweithrediadau cludo arferol ...............7

Ystyriaethau polisi sydd wedi bod yn sail i'r diwygiadau arfaethedig ................................8

Cwestiynau'r ymgynghoriad ....................................................................................................10

Cyfrinachedd a diogelu data ....................................................................................................10

Amdanoch chi neu eich sefydliad ....................................................................................................12

Diwygio Rheoliad 1/2005 mewn perthynas ag ieir: crynodeb o'r cynigion ......................13

Y defnydd presennol o ddulliau dal sy'n gysylltiedig â gweithrediadau llwytho a dadlwytho sy'n gysylltiedig â chludo ....................................................................................................15

Dal (codi a chario) tyrcwn ....................................................................................................19

Unrhyw ystyriaethau pellach ....................................................................................................20

# Trosolwg

## Cwmpas

Rydym ni'n gofyn am safbwyntiau ar ein cynigion i ddarparu eglurder ynghylch y dulliau a ganiateir ar gyfer codi a chario ('dal') dofednod i'w cludo mewn cysylltiad â gweithgaredd economaidd. Mae'r ddeddfwriaeth berthnasol (Rheoliad (CE) Rhif 1/2005 a gymathwyd ar ddiogelu anifeiliaid yn ystod cludiant a gweithrediadau cysylltiedig – 'Rheoliad 1/2005') yn gymwys yng Nghymru, Lloegr a'r Alban ac mae hwn yn ymgynghoriad ar gyfer Prydain Fawr (Cymru, Lloegr a'r Alban). Gan fod Rheoliad 1/2005 yn dod o fewn cwmpas Fframwaith Windsor, mae fersiwn yr UE yn parhau i fod yn berthnasol yng Ngogledd Iwerddon ac, o'r herwydd, ni fyddai'r diwygiadau deddfwriaethol arfaethedig a gyflwynir yn yr ymgynghoriad hwn yn berthnasol i Ogledd Iwerddon.

Mae ein cynigion polisi yn ymwneud yn unig â'r rhywogaeth *Gallus gallus* sy'n cynnwys ieir dodwy ac ieir bwyta ('ieir'). Mae ieir dodwy yn cynnwys menywod nad ydynt o oed cenhedlu (a elwir yn 'gywennod'), ieir o oed cenhedlu sy'n cynhyrchu wyau bwrdd, a stoc bridio gwrywaidd a benywaidd. Mae ieir bwyta yn cynnwys ieir bwyta gwrywaidd a benywaidd (a elwir hefyd yn 'gywion brwylio') a stoc bridio gwrywaidd a benywaidd. Rydym hefyd yn gobeithio defnyddio'r ymgynghoriad hwn i gael rhagor o wybodaeth am y dulliau a ddefnyddir i ddal tyrcwn.

## Cynulleidfa

Caiff unrhyw un ymateb i'r ymgynghoriad. Mae'r rhai a allai fod â diddordeb gynnwys:

- sefydliadau academaidd
- sefydliadau lles anifeiliaid
- defnyddwyr
- cynlluniau gwarant fferm
- sefydliadau ffermio a chyrff masnach
- awdurdodau lleol (ALlau)
- bridwyr dofednod
- busnesau dal dofednod
- ffermwyr dofednod
- gweithfeydd prosesu dofednod
- cludwyr dofednod
- manwerthwyr
- y proffesiwn milfeddygol

## Ymateb i'r ymgynghoriad

Mae'r ymgynghoriad hwn yn dechrau ar 10 Mawrth a bydd yn dod i ben ar 2 Mai 2025. Ni fyddwn yn dadansoddi unrhyw ymatebion a ddaw i law ar ôl y dyddiad hwn.

Ymatebwch i'r ymgynghoriad yma drwy ddefnyddio'r hyb ymgynghori Gofod Dinasyddion.

Os nad ydych chi'n gallu defnyddio Gofod Dinasyddion, gallwch lwytho'r dogfennau ymgynghori i lawr a dychwelyd eich ymateb drwy e-bost i poultry.catching@defra.gov.uk neu'n ysgrifenedig i:

Poultry catching Consultation, Farm Animal Welfare Team, Department for Environment, Food and Rural Affairs, Seacole Building 2nd Floor, 2 Marsham Street, London, SW1P 4DF.

Sylwch, mae'n **rhaid** i unrhyw ymatebion a gaiff eu hanfon drwy'r post fod wedi cyrraedd y cyfeiriad uchod erbyn dyddiad cau'r ymgynghoriad (10 Mawrth 2025) i gael eu hystyried. Ni fyddwn yn dadansoddi unrhyw ymatebion a ddaw i law ar ôl y dyddiad hwn. I sicrhau bod eich ymateb yn cael ei gynnwys yn y dadansoddiad, ystyriwch ymateb yn electronig, naill ai ar-lein drwy Gofod Dinasyddion, neu drwy e-bost.

Rydym yn cydnabod y gall ymatebwyr ddewis defnyddio rhywfaint o destun safonedig fel sail i'w hymateb. Ymgyrchoedd yw pan fydd sefydliadau (neu unigolion) yn cydlynu ymatebion ar draws eu haelodaeth neu sylfaen gefnogaeth, yn aml drwy awgrymu geiriad i ymatebwyr ei ddefnyddio. Mae ymatebion ymgyrchoedd fel arfer yn debyg iawn neu'n union yr un fath â'i gilydd. Ar gyfer yr ymgynghoriad hwn, efallai y caiff ymatebion ymgyrchoedd eu dadansoddi ar wahân i ymatebion eraill er mwyn sicrhau bod modd crynhoi ehangder y safbwyntiau sy'n dod i law yn effeithiol ac yn effeithlon. Bydd yr holl ymatebion ymgyrchoedd yn cael eu hystyried yn y dadansoddiad terfynol o safbwyntiau'r cyhoedd, ac mae ymgyrchoedd yn helpu i roi syniad pa mor gryf ydy'r teimladau tuag at y mater. Y llwybr sy'n cael ei ffafrio i'r holl ymatebwyr roi eu barn (gan gynnwys lle mae ymateb yn seiliedig ar ymgyrch) yw drwy hyb ymgynghori Gofod Dinasyddion.

# Cyflwyniad

Ymgynghoriad ar gyfer Prydain Fawr yw hwn a gyhoeddwyd gan Defra ar ran Llywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban.

Rydyn ni'n gofyn am safbwyntiau ar ein cynigion i roi eglurder ynghylch y dulliau a ganiateir o ddal ieir yn ystod gweithrediadau llwytho er mwyn eu cludo.

Mae Pennod iii o Atodiad 1 i Reoliad 1/2005 yn cynnwys rheolau manwl ar drin anifeiliaid yn ystod gweithrediadau llwytho sy'n gymwys mewn perthynas â chludo anifeiliaid mewn cysylltiad â gweithgaredd economaidd. Mae paragraff 1.8(d) o'r Bennod honno ('paragraff 1.8(d)') yn datgan: *"Gwaherddir.... codi neu lusgo'r anifeiliaid gerfydd eu pen, eu clustiau, eu cyrn, eu coesau, eu cynffon neu eu cnu na'u trin mewn ffordd sy'n achosi poen neu*

*ddioddefaint diangen iddynt."* Fodd bynnag, mae codau ymarfer statudol Defra ar gyfer lles ieir dodwy a chywennod a lles ieir bwyta ac ieir bwyta at fridio, codau tebyg yng Nghymru, a chanllawiau statudol tebyg yn yr Alban ('canllawiau statudol Prydain Fawr'), yn cynnwys dal ieir wrth y ddwy goes fel dull derbyniol (gweler y dolenni isod). Er enghraifft, mae'r cod ieir bwyta diweddaraf, a gyhoeddwyd yn 2018, yn datgan: "*...Daliwch nhw trwy afael ynddyn nhw am eu corff neu, os gafaelir yn y coesau, gerfydd y ddwy goes. Os oes angen cario adar, dylid gafael ynddyn nhw am eu corff neu gerfydd y ddwy goes".* Roedd y fersiwn flaenorol, a gyhoeddwyd yn 2002, yn adlewyrchu cyngor tebyg.

Mae canllawiau statudol Prydain Fawr ar les ieir yn cynnwys:

Cod ymarfer Defra ar gyfer lles ieir dodwy a chywennod

Cod ymarfer Defra ar gyfer lles ieir bwyta ac ieir bwyta at fridio

Cod ymarfer Cymru ar gyfer Lles Ieir Dodwy a Chywennod

Cod Ymarfer Cymru ar gyfer Lles Ieir Bwyta ac Ieir Bwyta at Fridio

Canllawiau'r Alban ar Les Ieir Dodwy a Chywennod

Canllawiau'r Alban ar gyfer Lles Ieir Bwyta ac Ieir Bwyta at Fridio

Er y mynegir bod y gwaharddiad ym mharagraff 1.8(d) yn gymwys i bob anifail fertebrat, y consensws gwyddonol pennaf, adeg mabwysiadu Rheoliad 1/2005 gan Gyngor yr Undeb Ewropeaidd, oedd y gallai dal rhai rhywogaethau dofednod wrth ddwy goes fod yn briodol ac yn dderbyniol. Ar ben hynny, esboniodd datganiadau (8) a (9) o Reoliad 1/2005 pa dystiolaeth wyddonol newydd a ystyriwyd wrth fabwysiadu'r Rheoliad, a'i gwneud yn glir y byddai darpariaethau penodol ar gyfer dofednod yn cael eu nodi mewn cynigion priodol yn dilyn barn berthnasol gan Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop (EFSA). Yn absenoldeb barn berthnasol gan EFSA nad oedd dal ieir wrth y coesau yn dderbyniol, ni fyddai disgwyliad clir na dealltwriaeth gyffredin y dylid diwygio rheolau lles wrth gludo'r UE i wahardd codi ieir gerfydd eu coesau. Felly, nid oedd yn cael ei werthfawrogi'n eang bod Rheoliad 1/2005 mewn gwirionedd yn cynnwys gwaharddiad o'r fath. Mae cyfiawnhad pellach dros y farn hon wedi'i nodi yn yr adran Ystyriaethau polisi sydd wedi bod yn sail i'r diwygiadau arfaethedig.

Daeth yr anghysondeb rhwng canllawiau statudol Prydain Fawr a pharagraff 1.8(d) i sylw Defra am y tro cyntaf yn 2021. Yng ngoleuni'r ansicrwydd ynghylch y dulliau derbyniol o ddal dofednod, fel cam cyntaf, comisiynodd Defra a Llywodraethau Cymru a'r Alban y Pwyllgor Lles Anifeiliaid (AWC), pwyllgor arbenigol sy'n cynghori'r tair llywodraeth ar les anifeiliaid, i ystyried y gwahanol ddulliau o ddal dofednod, er mwyn deall yn well y farn wyddonol ac arbenigol ddiweddaraf ar y goblygiadau lles cysylltiedig. Cyhoeddwyd adroddiad AWC yn 2024: 'Barn ar oblygiadau lles dulliau a systemau gwahanol ar gyfer dal, cario, casglu a llwytho dofednod'.

Daeth adroddiad AWC i'r casgliad eu bod o'r farn ei bod yn well i ddofednod gael eu dal, eu codi, eu cario a'u llwytho'n unionsyth gerfydd y corff. Fodd bynnag, nid oeddent yn gallu pennu un dull a fyddai'n sicrhau lles adar gwell ym mhob sefyllfa. Gwnaed sawl argymhelliad, gan gynnwys:

1. Peidio â chaniatáu codi neu gario dofednod gerfydd un goes, gan fod y dull hwn o drin yn niweidiol i les adar.
2. Dylid caniatáu codi ieir a thyrcwn (sy'n pwyso llai na 10kg) gerfydd dwy goes am gyfnod o 5 mlynedd.

Byddai argymhelliad 2 yn caniatáu casglu a dadansoddi data wedi'i dargedu ar y berthynas rhwng dulliau cario a chanlyniadau lles.

**Rydyn ni nawr yn gofyn am safbwyntiau ar ein cynigion i ddiwygio Rheoliad 1/2005 i roi eglurder ynghylch y gofynion cyfreithiol sy'n berthnasol i ddal ieir yn ystod gweithrediadau cludo, nes bydd rhagor o ymchwil yn y maes hwn.**

Byddai Erthygl 30(1) o Reoliad 1/2005 yn cael ei defnyddio i ddatgymhwyso'r gwaharddiad ym mharagraff 1.8(d) ar godi ieir gerfydd eu coesau ac i ddiwygio Pennod III o Atodiad I i'w gwneud yn glir, pan gaiff ieir eu dal wrth y coesau, bod yn rhaid iddynt gael eu dal gerfydd dwy goes.

## Cefndir o ddal ieir masnachol mewn perthynas â gweithrediadau cludo arferol

Ar ôl eu lleoli yn yr uned fagu fel cywion diwrnod oed, mae ieir dodwy fel arfer yn cael eu dal i'w cludo ddwywaith yn ystod eu hoes. Mae cywennod yn cael eu dal a'u rhoi mewn cratiau rhwng 16 a 18 wythnos, i'w trosglwyddo i uned ddodwy ar safle gwahanol. Mae'n debygol y bydd cywennod a fwriedir ar gyfer cynhyrchu mewn cewyll yn cael eu codi a'u cario'n amlach, gan y byddant hefyd yn cael eu symud â llaw o'r cratiau cludo ac yn cael eu rhoi yn system nythfa'r uned cynhyrchu wyau. Caiff ieir dodwy eu dal a'u rhoi mewn cratiau eto ar ddiwedd y cylch cynhyrchu (rhwng 70 a 100 wythnos) i'w cludo i weithfeydd prosesu cig. Ar ôl eu gosod yn yr uned fagu fel cywion diwrnod oed, dim ond unwaith y caiff ieir bwyta eu dal (rhwng 6 a 12 wythnos) i'w cludo i brosesu ar ddiwedd y cyfnod magu.

Mae dal ieir yn cael ei wneud â llaw yn bennaf, yn y tywyllwch, ac yn aml yn y nos. Mae'r ymgynghoriad hwn yn canolbwyntio ar ddal â llaw. Mae dal â llaw yn cynnwys techneg lle mae'r pen i lawr (mae aderyn yn cael ei godi a'i gario gerfydd un neu ddwy goes) a thechneg unionsyth (lle mae aderyn naill ai'n cael ei gynnal gan ddwy law yn dal yr adenydd i lawr yn erbyn y corff neu gydag un llaw o dan yr abdomen). Mae canllawiau statudol Prydain Fawr yn cyfeirio at ddau ddull a ganiateir o ddal, naill ai'n unionsyth gerfydd y corff, neu gerfydd dwy goes. Os bydd yr iâr yn cael ei dal wrth ddwy goes, mae'r canllawiau'n nodi na ddylid dal mwy na 3 iâr mewn unrhyw un llaw.

Er bod buddion lles wedi'u cysylltu â'r defnydd o systemau dal mecanyddol awtomatig modern ar gyfer ieir bwyta, anaml y defnyddir dulliau dal mecanyddol ym Mhrydain Fawr. Mae hyn oherwydd maint y peiriannau (ni all dyluniad llawer o unedau dofednod ddarparu ar eu cyfer), costau uchel, pryderon bioddiogelwch, a thuedd i rai modelau wneud mwy o ddifrod i flaen adain o'i gymharu â dal â llaw.

Oherwydd maint mawr yr haid sy'n cael eu cadw gan y sectorau dofednod masnachol, mae dal, trin a rhoi ieir a thyrcwn masnachol mewn cratiau er mwyn eu cludo yn gofyn am wasanaethau timau dal dofednod arbenigol. Mae'r rhain fel arfer yn cael eu darparu gan gwmnïau dal dofednod allanol ar sail contract.

Mae'r broses o ddal â llaw yn ailadroddus ac yn gorfforol iawn i'r rheini sy'n cyflawni'r dasg. Yn ogystal â'r dull ei hun o ddal, mae nifer o ffactorau dryslyd gyda'r potensial i effeithio'n sylweddol ar les anifeiliaid. Mae'r rhain yn cynnwys:

- safon yr hyfforddiant a ddarperir i staff dal dofednod
- ansawdd y ffordd y mae adar yn cael eu trin (a allai ddioddef oherwydd blinder dynol neu ffactorau eraill)
- dim digon o adnoddau staff i gynyddu'r gwaith dal dofednod

Mae'n bwysig iawn bod yr holl ffactorau hyn yn cael eu hystyried gyda'i gilydd, yn enwedig o ystyried maint y gwaith dal a thrin. Amcangyfrifir yn 2023 bod 1,114 miliwn o ieir bwyta, 39 miliwn o ieir dodwy hesb ac 13 miliwn o ieir bridio wedi cael eu dal a'u hanfon i'r lladd-dy ym Mhrydain Fawr.

## Ystyriaethau polisi sydd wedi bod yn sail i'r diwygiadau arfaethedig

Paratowyd asesiad o effaith yr ymgynghoriad ochr yn ochr â'r ymgynghoriad hwn i asesu effaith 3 opsiwn polisi, gyda'r potensial i fynd i'r afael â'r anghysondeb rhwng canllawiau statudol Prydain Fawr a Rheoliad 1/2005. Y 3 opsiwn yw:

- **opsiwn 0**: gwneud dim
- **opsiwn 1**: diwygio Rheoliad 1/2005 i ganiatáu'n benodol i ieir gael eu dal wrth y ddwy goes
- **opsiwn 2**: diwygio canllawiau statudol Prydain Fawr i roi'r gorau i ddal ieir wrth y coesau a mynnu eu bod yn cael eu dal wrth y corff

Pe bai Llywodraethau Prydain yn gwneud dim (**opsiwn 0**), byddai'n ofynnol i weithredwyr gydymffurfio â pharagraff 1.8(d), ond byddai ansicrwydd ynghylch y dulliau a ganiateir o ddal dofednod yn parhau. Petai'r opsiwn nad yw'n rheoleiddiol yn cael ei ddilyn (**opsiwn 2**), yna byddai'n amlwg y byddai'n ofynnol i weithredwyr gydymffurfio â pharagraff 1.8(d), ac y byddai'n rhaid i'r holl ieir gael eu dal gerfydd eu cyrff a'u cario'n unionsyth at ddibenion gweithrediadau cludo masnachol. Nid ydym o'r farn bod yr opsiynau hyn yn adlewyrchu

effaith Rheoliad 1/2005 a ddeallir yn gyffredin, a ddangosir gan y canllawiau a'r cyngor a gyhoeddir gan gyrff swyddogol yn y DU a'r UE.

Nid yw'r dull o ddal ieir yn unionsyth gerfydd y corff yn cael ei wneud fel mater o drefn ym Mhrydain Fawr ar hyn o bryd. Mae risg bosibl y gallai newidiadau i ganllawiau statudol Prydain Fawr i sicrhau newid cynhwysfawr i ddal (y corff) yn unionsyth ar hyn o bryd arwain at ganlyniadau lles anfwriadol sy'n gysylltiedig ag amseroedd dal, rhoi mewn crât ac aros hirach, a chael eu gwaethygu ymhellach gan brinder gweithlu yn y diwydiannau wyau a dofednod. Byddai newid o'r fath hefyd yn arwain at oblygiadau cost i'r diwydiant, gan dybio y gellid dod o hyd i'r gweithlu ychwanegol i ddal dofednod yn unionsyth. Pe bai'r sector yn crebachu mewn ymateb i amseroedd dal hirach, yna byddai hyn yn peri risg i ddiogelwch bwyd.

Byddai'r opsiwn rheoleiddio sy'n cael ei ffafrio (**opsiwn 1**), i ganiatáu dal ieir wrth ddwy goes, yn datrys yr anghysondeb rhwng paragraff 1.8(d) a chanllawiau statudol Prydain Fawr, tra bod rhagor o ymchwil i feintioli logisteg (gan gynnwys gofynion amser dal a llafur) ac effeithiau gwahanol ddulliau dal yn cael eu cynnal. Mae **opsiwn 1** yn cynnig ffordd i lywodraethau Prydain gynyddu sicrwydd ynghylch yr amddiffyniad lles a roddir i ieir wrth iddynt gael eu dal i'w cludo yn y tymor byr, gan ganiatáu i'r opsiwn o ddal wrth ddwy goes, fel y disgrifir yng nghanllawiau statudol Prydain Fawr, barhau am y tro. Bydd yn rhoi eglurder i ddiwydiannau wyau ac ieir bwyta Prydain, a chwmnïau dal, ynghylch y gofynion cyfreithiol sy'n berthnasol i weithrediadau dal dofednod. Bydd cynhyrchu set ddata ychwanegol, drwy ymchwil wedi'i thargedu, yn galluogi penderfyniadau ynghylch a yw rhagor o ddiwygiadau i'r ddeddfwriaeth, o ran cyflawni safonau lles hyd yn oed yn uwch ar gyfer ieir, yn ymarferol yn y tymor hir.

Mae'r canllawiau ar ddulliau dal yn ei gwneud yn glir y dylai dofednod, o leiaf, gael eu dal wrth ddwy goes. Mae'r farn y gall dal rhywogaethau dofednod wrth ddwy goes fod yn dderbyniol o safbwynt lles yn cyd-fynd ag adroddiad 2017 gan y Comisiwn Ewropeaidd a'r Consortiwm Canllawiau Cludo Anifeiliaid o'r enw 'Arferion da ar gyfer cludo anifeiliaid yn y DU: dofednod' ac adroddiad EFSA 2022 'Lles adar a chwningod domestig sy'n cael eu cludo mewn cynwysyddion', ac mae'n cyd-fynd â ffrydiau gwaith polisi Ewropeaidd ehangach.

Cyhoeddwyd cynnig gan y Comisiwn Ewropeaidd ym mis Rhagfyr 2023 ar gyfer Rheoliad newydd ar ddiogelu anifeiliaid yn ystod gweithrediadau cludo a gweithrediadau cysylltiedig ('cynnig y Comisiwn'), a fyddai'n **diddymu ac yn disodli Rheoliad 1/2005**. Mae cynnig y Comisiwn yn eithrio dofednod rhag y gwaharddiad ar godi anifeiliaid wrth y coesau (pwynt 3.1(d) Pennod III o Atodiad I), ac yn nodi'n benodol y bydd adar yn "*cael eu dal, eu codi a'u cario wrth ddwy goes, gan ddefnyddio sleidiau bron mewn cewyll neu goes y gweithredydd fel cefnogaeth i fron yr aderyn*" (pwynt 3.7 Pennod III o Atodiad I).

Mae'r cynnig rydyn ni'n ei ffafrio (**opsiwn 1**) yn fwy cyfyngedig na chynnig y Comisiwn, ac argymhelliad AWC ar ddiwygio Rheoliad 1/2005, gan y byddai'n datgymhwyso paragraff 1.8(d) i ieir yn unig, yn hytrach nag i'r holl ddofednod. Ein dealltwriaeth ar hyn o bryd, oherwydd bod maint y corff yn fwy, mae'n annhebygol y bydd tyrcwn yn cael eu codi wrth y

coesau'n unig fel rhan o weithrediadau cludo. Hoffem ddefnyddio'r ymgynghoriad hwn i brofi a yw'r dybiaeth hon yn gywir neu a ddylai'r diwygiad ar gyfer esemptiad hefyd fod yr un mor berthnasol i dyrcwn sydd o dan bwysau penodol.

Ni fyddai'r diwygiad arfaethedig yn cynnwys hwyaid a gwyddau am resymau lles ac ymarferoldeb sy'n gysylltiedig â maint y corff. Mae AWC yn argymell na ddylid byth dynnu'r hwyaid allan o ddŵr â'u pennau i lawr. Dylid eu cario'n unionsyth a fesul un bob amser, ac ni ddylid byth eu dal, eu codi na'u cario wrth y goes/coesau oherwydd risg uchel o ddatgymaliad y glun a chloffni.

Rydym hefyd yn cynnig cynnwys gofyniad ychwanegol i'w gwneud yn glir na chaniateir dal ieir wrth un goes. Byddai'r diwygiad hwn yn adlewyrchu canllawiau statudol Prydain Fawr ar y dulliau a ganiateir o ddal ieir, nad ydynt yn cynnwys dal ieir wrth un goes. Mae adroddiad AWC yn cadarnhau bod codi neu gario dofednod wrth un goes yn niweidiol i les adar. Mae adroddiad EFSA 2022 'Lles adar a chwningod domestig sy'n cael eu cludo mewn cynwysyddion' hefyd yn argymell *"Os bydd adar yn cael eu trin mewn ystum â'u pennau i lawr, er mwyn lleihau'r risg o gymalau wedi'u datgymalu neu doriadau, dylid eu dal, eu codi a'u cario wrth ddwy goes, gan ddefnyddio sleidiau bron mewn cewyll, uchafswm o 3 aderyn fesul llaw".*

Mae dal màs corff iâr wrth ddwy goes yn hytrach nag un yn debygol iawn o leihau'r risg o drawma corfforol sy'n gysylltiedig â dal â'r pen i lawr. Mae'n bosibl y bydd osteoporosis neu 'afiechyd esgyrn brau' yn bresennol mewn ieir dodwy ar ddiwedd y cylch cynhyrchu wyau, a dangoswyd bod dal wrth ddwy goes yn lleihau toriadau esgyrn yn sylweddol (o'i gymharu â dal un goes). Mae ieir bwyta masnachol safonol 2.5 kg ar gyfartaledd wrth ddiboblogi ac maent yn dueddol o gael briwiau ar y cymalau. Mae adar trymach sy'n cael eu cludo wrth un goes yn fwy tebygol i gael toriadau yn y coesau ac esgyrn ffemwr wedi'u datgymalu yn ystod y broses o ddal, gyda llawer o ddatgymaliadau y credir eu bod yn arwain at golli gwaed angheuol (adolygwyd gan Weeks, 2007; Weeks, 2024).

**Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio cael dealltwriaeth bellach o'r effaith debygol y gallai'r diwygiadau deddfwriaethol arfaethedig ei chael ar les dofednod a'r diwydiannau perthnasol.**

# Cwestiynau'r ymgynghoriad

## Cyfrinachedd a diogelu data

Bydd gwybodaeth a ddarperir mewn ymateb i'r ddogfen ymgynghori hon, gan gynnwys gwybodaeth bersonol, yn cael ei rhannu â swyddogion polisi perthnasol yn Llywodraeth Cymru, Llywodraeth yr Alban a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon.

Bydd crynodeb o ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yn cael ei gyhoeddi gwefan y llywodraeth. . Bydd atodiad i'r crynodeb o'r ymgynghoriad yn rhestru'r holl sefydliadau a ymatebodd ond ni fydd yn cynnwys enwau personol, cyfeiriadau na manylion cyswllt eraill. Gall Defra

gyhoeddi cynnwys eich ymateb i'r ymgynghoriad hwn er mwyn sicrhau ei fod ar gael i'r cyhoedd heb eich enw personol na'ch manylion cyswllt preifat (er enghraifft, cyfeiriad cartref, cyfeiriad e-bost, ac ati).

Os byddwch yn dewis 'Ydw' wrth ateb y cwestiwn sy'n gofyn a hoffech gadw unrhyw ran o'ch ymateb yn gyfrinachol, gofynnir i chi nodi'n glir pa wybodaeth yr hoffech ei chadw'n gyfrinachol ac egluro eich rhesymau dros gadw cyfrinachedd. Y rheswm am hyn yw y gallai gwybodaeth mewn ymateb i'r ymgynghoriad hwn gael ei rhyddhau i'r cyhoedd neu i bartïon eraill yn unol â'r gyfraith mynediad at wybodaeth (yn bennaf, Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004, Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, a Deddf Diogelu Data 2018). Mae gennym ymrwymiadau, yn bennaf o dan y Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol, Deddf Rhyddid Gwybodaeth a Deddf Diogelu Data, i ddatgelu gwybodaeth i dderbynyddion penodol neu'r cyhoedd mewn amgylchiadau penodol. Oherwydd hyn, byddai eich esboniad dros ofyn am gadw eich ymateb cyfan neu ran ohono yn gyfrinachol yn ein helpu i gydbwyso'r ymrwymiadau hyn i ddatgelu yn erbyn unrhyw ymrwymiad o ran cyfrinachedd. Os byddwn yn cael cais i gadw'r wybodaeth a ddarparwyd gennych yn eich ymateb i'r ymgynghoriad hwn yn gyfrinachol, byddwn yn rhoi ystyriaeth lawn i'ch rhesymau dros ofyn am gadw eich ymateb yn gyfrinachol, ond ni allwn sicrhau y gellir cadw cyfrinachedd ym mhob sefyllfa.

Os byddwch yn ateb 'Nac ydw' i'r cwestiwn sy'n gofyn a hoffech i unrhyw ran o'ch ymateb gael ei gadw'n gyfrinachol, byddwn yn gallu rhyddhau cynnwys eich ymateb i'r cyhoedd ond ni fydd eich enw personol na'ch manylion cyswllt preifat ar gael yn gyhoeddus.

**Defnyddio eich gwybodaeth a'i rhannu**

Mae sut rydym yn defnyddio eich data personol wedi'i nodi yn [hysbysiad preifatrwydd yr ymgynghoriad a'r ymarfer galwad am dystiolaeth](#) Defra.

Mae ein hysbysiad preifatrwydd diweddaraf wedi'i lwytho i fyny fel dogfen gysylltiedig ochr yn ochr â'n dogfen ymgynghori.

**Gwybodaeth arall**

Cynhelir yr ymgynghoriad hwn yn unol ag [Egwyddorion Ymgynghori Swyddfa'r Cabinet](#).

Os oes gennych unrhyw sylwadau neu gwynion ynghylch y broses ymgynghori, anfonwch nhw drwy e-bost at: consultation.coordinator@defra.gov.uk.

## Amdanoch chi neu eich sefydliad

**C1a. Ydych chi am i’ch ymateb gael ei drin yn gyfrinachol (gofynnol)?**

- ❑ Ydw
- ❑ Nac ydw

**C1b. Os atebwch ‘ydw’, rhowch eich rheswm.**

[Testun rhydd]

**C2. Eich enw:**

[Testun rhydd]

**C3. Eich cyfeiriad e-bost:**

[Testun rhydd]

**C4. Ydych chi’n ymateb ar ran sefydliad neu fel unigolyn? (Dewiswch un opsiwn yn unig)**

- ❑ Unigolyn – Rydych yn ymateb gyda’ch barn bersonol, yn hytrach nag fel cynrychiolydd swyddogol busnes, cymdeithas fusnes neu sefydliad arall
- ❑ Sefydliad – Rydych yn ymateb mewn rhinwedd swyddogol fel cynrychiolydd busnes, cymdeithas fusnes neu sefydliad arall

**C5. Os ydych chi’n ymateb fel unigolyn yng Nghwestiwn 4, ble mae eich lleoliad (gofynnol)? (Dewiswch un opsiwn yn unig)**

- ❑ Lloegr
- ❑ Yr Alban
- ❑ Cymru
- ❑ Gogledd Iwerddon
- ❑ Nid yn y DU (Ewrop)
- ❑ Y tu allan i Ewrop

**C6. Os ydych chi’n ymateb fel sefydliad yng Nghwestiwn 4, ble mae pencadlys eich sefydliad (gofynnol)? (Dewiswch un opsiwn yn unig)**

- ❑ Lloegr
- ❑ Yr Alban
- ❑ Cymru
- ❑ Gogledd Iwerddon
- ❑ Nid yn y DU (Ewrop)

- ❑ Y tu allan i Ewrop

**C7. Os ydych chi’n ymateb fel sefydliad yng Nghwestiwn 4, beth yw enw eich sefydliad?**

[Testun rhydd]

**C8. Pa un o’r canlynol sy’n disgrifio eich rôl orau? (dewiswch bob opsiwn perthnasol)**

- ❑ Academaidd
- ❑ Sefydliad lles anifeiliaid
- ❑ Defnyddiwr
- ❑ Cynllun gwarant fferm
- ❑ Sefydliad ffermio neu gorff masnach
- ❑ Awdurdod Lleol (LA)
- ❑ Bridiwr dofednod (ieir bwyta)
- ❑ Bridiwr dofednod (ieir dodwy)
- ❑ Bridiwr dofednod (tyrcwn)
- ❑ Daliwr dofednod
- ❑ Ffermwr cig dofednod (ieir)
- ❑ Ffermwr cig dofednod (tyrcwn)
- ❑ Ffermwr cig dofednod (arall)
- ❑ Cyfunydd cig dofednod
- ❑ Prosesydd dofednod
- ❑ Cludydd dofednod
- ❑ Magwr cywennod
- ❑ Manwerthwr
- ❑ Corff masnach sector neu sefydliad aelodaeth
- ❑ Cynhyrchydd wyau bwrdd (ieir)
- ❑ Cynhyrchydd wyau bwrdd (arall)
- ❑ Milfeddyg
- ❑ Arall - rhowch fanylion

[Blwch agored i roi ymateb]

## Diwygio Rheoliad 1/2005 mewn perthynas ag ieir: crynodeb o'r cynigion

Rydym yn cynnig diwygio paragraff 1.8 (d) i ganiatáu i ieir gael eu codi (dal) wrth ddwy goes fel rhan o weithrediadau llwytho neu ddadlwytho i neu o gerbyd, neu gyfrwng cludo arall.

Bydd y diwygiad hwn yn cysoni'r gofynion cyfreithiol yn Rheoliad 1/2005 â chanllawiau statudol Prydain Fawr sydd wedi bod ar waith ers dros 20 mlynedd.

Rydym hefyd yn cynnig diwygio Pennod III o Atodiad I i Reoliad 1/2005 i beidio â chaniatáu dal wrth un goes yn benodol. Byddai hyn yn sicrhau bod y rheolau yn y Bennod hon yn gyson â chanllawiau statudol Prydain Fawr ar ddulliau dal a ganiateir, ac na fydd eithrio ieir rhag y gwaharddiad ar godi ym mharagraff 1.8(d) yn arwain at ostwng safonau lles yn ymarferol.

Mae'r dull hwn yn cyd-fynd ag argymhellion diweddar AWC a chynnig y Comisiwn. Bydd yn rhoi eglurder sydd  wir ei angen i ddiwydiannau wyau ac ieir bwyta Prydain, a'r cwmnïau dal, ynghylch y gofynion cyfreithiol sy'n berthnasol i weithrediadau dal dofednod fel rhan o gynhyrchiad masnachol arferol. Bydd hefyd yn sicrhau y gall ieir barhau i gael eu cludo rhwng unedau tai a'u danfon i'w prosesu mewn modd effeithlon ac amserol.

Mae dal ieir yn unionsyth (gerfydd y corff) â'r potensial i ddarparu lles uwch yn uniongyrchol, mewn egwyddor, drwy osgoi straen wrth gael y pen i lawr a lleihau'r risg o drawma yn y goes. Rydym nawr yn ceisio mynd i'r afael â bylchau pwysig yn y sylfaen dystiolaeth, fel y nodir yn adroddiad AWC, ynghylch potensial y dull hwn i wella canlyniadau lles yn derfynol, o'i gymharu â dal dwy goes, pan gaiff ei berfformio'n fasnachol ac ar raddfa fawr.

Ein bwriad yw comisiynu ymchwil i'r logisteg ymarferol a'r canlyniadau lles sy'n gysylltiedig â dulliau dal ieir â llaw (wrth ddwy goes ac yn unionsyth). Dylai hyn ein helpu i sefydlu a yw newid cynhwysfawr i ddal dofednod yn unionsyth yn briodol ac yn ymarferol yn y tymor hir. Unwaith y bydd canlyniad yr ymchwil wyddonol hon yn hysbys, byddwn yn ystyried a oes angen newidiadau yn y dyfodol i'r ddeddfwriaeth neu i ganllawiau statudol Prydain Fawr.

Mae asesiad o'r effaith ar yr ymgynghoriad wedi cael ei gyhoeddi ochr yn ochr â'r ymgynghoriad hwn. Nod y ddogfen hon yw amcangyfrif yr arfer presennol o wahanol ddulliau dal ieir (a'r amseroedd cysylltiedig o ddal a rhoi ieir mewn cratiau) ac asesu effaith ariannol y diwygiadau arfaethedig, o'i gymharu ag opsiynau polisi eraill.

**C9.a) A ddylid caniatáu'n gyfreithiol i ddal ieir wrth ddwy goes er mwyn eu llwytho a'u dadlwytho i'w cludo?**

- ☐ Dylid
- ☐ Na ddylid
- ☐ Ddim yn gwybod

**C9.b) Os atebwch 'dylid', rhowch unrhyw wybodaeth y gallwch ei rhoi i gefnogi eich barn:**

[Blwch agored i roi ymateb]

## Y defnydd presennol o ddulliau dal sy'n gysylltiedig â gweithrediadau llwytho a dadlwytho er mwyn cludo

**C10. Ydych chi neu eich sefydliad yn dal ieir at ddibenion gweithrediadau llwytho a dadlwytho?**

- ☐ Ydw
- ☐ Nac ydw, ewch i C17

**C11. Pa sector a system cadw dofednod ydych chi'n gweithio gyda nhw? (Dewiswch bob un sy'n berthnasol)**

- ☐ Cywennod ieir dodwy: mewn cewyll
- ☐ Cywennod ieir dodwy: wedi'u cadw ar y llawr
- ☐ Cywennod ieir dodwy: sawl haen
- ☐ Ieir dodwy: cynhyrchu wyau bwrdd mewn cewyll
- ☐ Ieir dodwy: cynhyrchu wyau bwrdd wedi'u cadw ar y llawr
- ☐ Ieir dodwy: cynhyrchu wyau bwrdd mewn adardy
- ☐ Ieir dodwy: bridwyr haenau
- ☐ Ieir bwyta: cywion brwylio
- ☐ Ieir bwyta: bridwyr cywion brwylio

**C12.a) Pa ddull o ddal ieir ydych chi neu eich sefydliad yn ei ddefnyddio? (dewiswch bob un sy'n berthnasol)**

- ☐ Dwy goes
- ☐ Unionsyth, gerfydd y corff
- ☐ Arall - rhowch fanylion
- ☐ Mae'n well gen i beidio â dweud

**C12.b) Os dewiswyd sawl dull, rhowch wybodaeth ychwanegol ynghylch pryd, a pham, mae pob un yn fwyaf tebygol o gael ei ddefnyddio (er enghraifft, nodwch a ddefnyddir dulliau dal gwahanol ar gyfer gwahanol sectorau neu systemau, am resymau lles, neu ar ffermydd sydd ag aelodaeth o gynllun sicrwydd penodol)**

[Blwch agored i roi ymateb]

**C12.c) Os dewiswyd un dull, rhowch wybodaeth ychwanegol ynghylch pam y dewiswyd y dull hwn**

[Blwch agored i roi ymateb]

**C13a. Faint o amser mae'n ei gymryd i ddal llwyth llawn (lori gludo)? Ar gyfer pob senario, dewiswch o'r opsiynau perthnasol a nodwch nifer yr adar a ddaliwyd a'r**

**amser cyfatebol (mewn oriau a munudau). Er enghraifft: ieir bwyta, llawr, 2 goes, 6, modiwl, 4,600, 1 awr 15 munud**

- ❑ Sector [cywennen / ieir dodwy / bridiwr ieir dodwy at fagu / ieir bwyta (cywion brwylio) / bridiwr cywion brwylio / tyrcwn]
- ❑ System cadw dofednod [cawell / llawr / dec gwastad / sawl haen neu adardy]
- ❑ Dull dal [corff / dwy goes / mecanyddol / arall]
- ❑ Maint y tîm dal [llai na 4 / 4 / 5 / 6 / 7 / 8 / mwy nag 8]
- ❑ Cynhwysydd cludo [crât / hambwrdd mewn pentwr / modiwl]

Nifer yr adar [Blwch testun rhydd]

Amser dal yn fras [Blwch testun rhydd]

**C13b. Os gallwch ddarparu gwybodaeth sy'n ymwneud â senario sy'n wahanol i'r hyn a roddwyd yn C13a, cyflwynwch y wybodaeth isod. Os ddim, symudwch i C14**

- ❑ Sector [cywennen / ieir dodwy / bridiwr ieir dodwy at fagu / ieir bwyta (cywion brwylio) / bridiwr cywion brwylio / tyrcwn]
- ❑ System cadw dofednod [cawell / llawr / dec gwastad / sawl haen neu adardy]
- ❑ Dull dal [corff / dwy goes / mecanyddol / arall]
- ❑ Maint y tîm dal [llai na 4 / 4 / 5 / 6 / 7 / 8 / mwy nag 8]
- ❑ Cynhwysydd cludo [crât / hambwrdd mewn pentwr / modiwl]

Nifer yr adar [Blwch testun rhydd]

Amser dal yn fras [Blwch testun rhydd]

**C13c. Os gallwch ddarparu gwybodaeth sy'n ymwneud â senario sy'n wahanol i'r hyn a roddwyd yn C13a a b, cyflwynwch y wybodaeth isod. Os ddim, symudwch i C14**

- ❑ Sector [cywennen / ieir dodwy / bridiwr ieir dodwy at fagu / ieir bwyta (cywion brwylio) / bridiwr cywion brwylio / tyrcwn]
- ❑ System cadw dofednod [cawell / llawr / dec gwastad / sawl haen neu adardy]
- ❑ Dull dal [corff / dwy goes / mecanyddol / arall]
- ❑ Maint y tîm dal [llai na 4 / 4 / 5 / 6 / 7 / 8 / mwy nag 8]

- ❑ Cynhwysydd cludo [crât / hambwrdd mewn pentwr / modiwl]

Nifer yr adar [Blwch testun rhydd]

Amser dal yn fras [Blwch testun rhydd]

**C13d. Os gallwch ddarparu gwybodaeth sy'n ymwneud â senario sy'n wahanol i'r hyn a roddwyd yn C13a, b a c, cyflwynwch y wybodaeth isod. Os ddim, symudwch i C14**

- ❑ Sector [cywennen / ieir dodwy / bridiwr ieir dodwy at fagu / ieir bwyta (cywion brwylio) / bridiwr cywion brwylio / tyrcwn]
- ❑ System cadw dofednod [cawell / llawr / dec gwastad / sawl haen neu adardy]
- ❑ Dull dal [corff / dwy goes / mecanyddol / arall]
- ❑ Maint y tîm dal [llai na 4 / 4 / 5 / 6 / 7 / 8 / mwy nag 8]
- ❑ Cynhwysydd cludo [crât / hambwrdd mewn pentwr / modiwl]

Nifer yr adar [Blwch testun rhydd]

Amser dal yn fras [Blwch testun rhydd]

**C13e. Os gallwch ddarparu gwybodaeth sy'n ymwneud â senario sy'n wahanol i'r hyn a roddwyd yn C13a, b, c a d, cyflwynwch y wybodaeth isod. Os ddim, symudwch i C14**

- ❑ Sector [cywennen / ieir dodwy / bridiwr ieir dodwy at fagu / ieir bwyta (cywion brwylio) / bridiwr cywion brwylio / tyrcwn]
- ❑ System cadw dofednod [cawell / llawr / dec gwastad / sawl haen neu adardy]
- ❑ Dull dal [corff / dwy goes / mecanyddol / arall]
- ❑ Maint y tîm dal [llai na 4 / 4 / 5 / 6 / 7 / 8 / mwy nag 8]
- ❑ Cynhwysydd cludo [crât / hambwrdd mewn pentwr / modiwl]

Nifer yr adar [Blwch testun rhydd]

Amser dal yn fras [Blwch testun rhydd]

**C13f. Os gallwch ddarparu gwybodaeth sy'n ymwneud â senario sy'n wahanol i'r hyn a roddwyd yn C13a, b, c, d ac e, cyflwynwch y wybodaeth isod.**

- ❑ Sector [cywennen / ieir dodwy / bridiwr ieir dodwy at fagu / ieir bwyta (cywion brwylio) / bridiwr cywion brwylio / tyrcwn]

- ❑ System cadw dofednod [cawell / llawr / dec gwastad / sawl haen neu adardy]
- ❑ Dull dal [corff / dwy goes / mecanyddol / arall]
- ❑ Maint y tîm dal [llai na 4 / 4 / 5 / 6 / 7 / 8 / mwy nag 8]
- ❑ Cynhwysydd cludo [crât / hambwrdd mewn pentwr / modiwl]

Nifer yr adar [Blwch testun rhydd]

Amser dal yn fras [Blwch testun rhydd]

**C14. Beth yw'r nifer delfrydol o aelodau staff ar gyfer tîm dal safonol? Nodwch sut y gallai hyn amrywio yn ôl dull dal, maint yr haid, sector a'r system cadw dofednod:**

[Testun rhydd]

**C15. Sut mae staff trin neu ddalwyr dofednod yn cael eu talu?**

- ☐ Cyflog fesul awr
- ☐ Cyflog blynyddol
- ☐ Cyfradd yn ôl y gwaith fesul aderyn
- ☐ Arall - rhowch fanylion

**C16. Yn seiliedig ar eich ateb ar gyfer C15, beth yw'r cyflog cyfartalog ar gyfer staff trin neu ddalwyr dofednod?**

[Testun rhydd]

**C17.a) Ydych chi'n cofnodi, neu'n gallu cael gafael ar ddata am ganlyniadau lles adar sy'n gysylltiedig â dal adar? Er enghraifft, trapio, marw wrth gyrraedd y lladd-dy, difrod i'r carcas (cleisio, esgyrn wedi torri, ymwrthiant), ac ati.**

- ☐ Ydw
- ☐ Nac ydw

**C17.b) Os atebwch 'ydw', rhowch unrhyw wybodaeth y gallwch ei rhoi i gefnogi eich barn:**

[Blwch agored i roi ymateb]

**C18.a) Oes gennych chi unrhyw sylwadau ar yr asesiad o effaith a'i fethodoleg? Er enghraifft, a yw unrhyw beth wedi'i eithrio?**

- ☐ Oes
- ☐ Nac oes

**C18.b) Os atebwch 'oes', rhowch unrhyw wybodaeth y gallwch ei rhoi i gefnogi eich barn:**

[Testun rhydd]

## Dal (codi a chario) tyrcwn

Dim ond mewn perthynas ag ieir y mae diwygiadau i Reoliad 1/2005 yn cael eu cynnig ar hyn o bryd. Fodd bynnag, roedd adroddiad diweddar yr AMC, 'Barn ar oblygiadau lles dulliau a systemau ar gyfer dal, cario, casglu a llwytho dofednod' yn argymell y dylid caniatáu codi cyw iâr a thyrcwn (llai na 10kg) wrth ddwy goes am gyfnod o 5 mlynedd ac y dylid casglu a dadansoddi data ar y berthynas rhwng dulliau cario a chanlyniadau lles.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio cael dealltwriaeth o'r defnydd o'r gwahanol ddulliau dal gan y diwydiant tyrcwn ac a oes sail dystiolaeth i ganiatáu bod tyrcwn (dan bwysau penodol) yn cael eu dal wrth y coesau. Nid ydym yn ystyried hwyaid neu wyddau gan fod y dystiolaeth yn dangos yn glir eu bod yn anaddas i gael eu dal â'u pennau i lawr.

**C19. Ydych chi neu eich sefydliad yn dal tyrcwn (o dan 10kg) ar gyfer gweithrediadau llwytho a dadlwytho?**

- ☐ Ydw
- ☐ Nac ydw, ewch i C21

**C20. Pa rai o'r dulliau canlynol ydych chi'n eu defnyddio i ddal tyrcwn (llai na 10 kg) at ddibenion llwytho a dadlwytho? (dewiswch bob un sy'n berthnasol)**

- ☐ Dwy goes
- ☐ Unionsyth, gerfydd y corff
- ☐ Arall - rhowch fanylion
- ☐ Mae'n well gen i beidio â dweud

**C21.a) I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiad canlynol: 'Dylid caniatáu'n gyfreithiol i ddal tyrcwn (llai na 10 kg) wrth ddwy goes er mwyn llwytho a dadlwytho'?**

- ☐ Cytuno'n gryf
- ☐ Cytuno
- ☐ Niwtral
- ☐ Anghytuno
- ☐ Anghytuno'n gryf
- ☐ Ddim yn gwybod

**C21.b) Rhowch unrhyw wybodaeth y gallwch ei rhoi i gefnogi eich ateb, gan gynnwys unrhyw wybodaeth sy'n ymwneud â lles tyrcwn yn ystod, neu ar ôl, dal wrth ddwy goes:**

[Blwch agored i roi ymateb]

## Unrhyw ystyriaethau pellach

**C22. Rydym yn bwriadu comisiynu ymchwil mewn ymateb i argymhelliad AWC y dylid casglu a dadansoddi data ychwanegol ar y berthynas rhwng gwahanol ddulliau dal â llaw a chanlyniadau lles. Rhowch unrhyw farn sydd gennych am y ffordd orau o gynhyrchu data cadarn o'r math hwn:**

[Blwch agored i roi ymateb]

**C23. Darparwch unrhyw ystyriaethau pellach y teimlwch y dylid eu nodi ynghylch y cynnig polisi i ddiwygio Rheoliad 1/2005 (er enghraifft, rhwystrau i recriwtio). Esboniwch eich ateb, os gwelwch yn dda:**

[Blwch agored i roi ymateb]